Crynodeb: Ymyrraeth a Dewisiadau

Adran/Asiantaeth:	Teitl:	
Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	**Asesu Effaith Ailddosbarthu Gemau Fideo**	
Cyfnod: Ymgynghori	**Fersiwn:** 1	**Dyddiad:** Awst 2008
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: 'Safer Children in a Digital World': Adolygiad gan Dr Tanya Byron, a gyhoeddwyd 27 Mawrth 2008		

Ar gael i'w weld neu i'w lawrlwytho oddi ar:

http://www.dcsf.gov.uk/byronreview/

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: enquiries@culture.gov.uk **Ffôn:** 0207 211 6200

Beth yw'r broblem dan ystyriaeth? Pam bod ymyrraeth y llywodraeth yn angenrheidiol?

Ym mis Medi 2007, gofynnodd y Prif Weinidog i Dr Tanya Byron adolygu risgiau'r We a gemau fideo i blant. Casgliad Dr Byron oedd bod y system ddosbarthu gyfredol a gymhwysir at gemau fideo'n ddryslyd. Argymhellodd y dylid ymgynghori ynglŷn â diwygio'r system ddosbarthu, fel y gallai rhieni a phlant fod yn gliriach ynglŷn â chynnwys y gemau unigol a dylid ymestyn y cynllun statudol presennol, fel y bydd yn rhaid i'r holl gemau sy'n cael eu graddio'n 12 oed a throsodd gael eu dosbarthu'n briodol yn ôl oedran a'u gwerthu/cyflenwi'n unol â'r dosbarthiad hwn.

Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Sefydlu system ddosbarthu sy'n fwy ystyrlon ac effeithiol, ac o ganlyniad sy'n amddiffyn plant ac oedolion ifanc yn well. Byddai hyn yn golygu ehangu'r cynllun statudol presennol i'r holl gemau sy'n cael eu graddio'n 12 oed a throsodd. Ar hyn o bryd, dim ond gemau fideo sy'n cynnwys trais dybryd, gweithgarwch rhywiol, gweithgarwch troseddol penodol a gemau sydd â chynnwys ffilm nad yw'n rhan annatod o'r gêm, sy'n cael eu dal o dan y cynllun statudol.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Cyfiawnhewch unrhyw ddewis a ffefrir.

*System ddosbarthu hybrid; *dewis BBFC ychwanegol lle y gwelid y BBFC fel y corff dosbarthu statudol ar gyfer pob gêm fideo tra byddai'n cadw'i hawl i wrthod ardystio; *dewis PEGI ychwanegol a fyddai'n rhoi awdurdod statudol dynodedig i gorff yn y DU i redeg PEGI yn y DU a'r pŵer i wrthod ardystio gêm a *Chod Ymarfer gwirfoddol ar gyfer y diwydiant a chyflenwyr (heb newidiadau i'r cynllun statudol presennol).

Pryd yr adolygir y polisi i asesu'r gwir gostau a buddion a chyflawniad yr effeithiau a ddymunir? Ar ôl ymgynghori yn gynnar yn 2009.

Llofnod y Gweinidog Ar gyfer Asesiadau Effaith yn y cyfnod ymgynghori:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf yn fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli golwg resymol ar gostau, buddion ac effaith debygol y prif ddewisiadau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol:

Dyddiad: 22 Awst 2008

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Dewis Polisi: 1	Disgrifiad: Hybrid

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL		
Un-tro (Trawsnewid)	(Blynydd-oedd)	Disgrifiad a graddfa'r **prif gostau mewn arian** yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt' Mae'r prif grwpiau yr effeithir arnynt yn cynnwys: cyhoeddwyr gemau, manwerthwyr, rhieni a phlant. Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn ynglŷn â phartïon eraill y gall y newid effeithio arnynt. Er enghraifft, bydd cyhoeddwyr y gemau'n mynd i gostau wrth drefnu i'w gemau gael eu dosbarthu. Gweler tabl 7 (sylfaen tystiolaeth) am ddadansoddiad o gostau.
£ 0		
Cost Flynyddol ar Gyfartaledd (ac eithrio un-tro)		
£ 2.46m-£4.04m	10	**Cyfanswm Costau** (Gwerth Presennol) £ 20.44 - £33.56m

Y **prif gostau eraill (heb eu cyfrifo mewn arian)** yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt' Yn ogystal â'r ffioedd a godir ar gyfer dosbarthu bydd costau gweinyddol ychwanegol megis cost argraffu'r labeli. Byddem yn croesawu tystiolaeth ynglŷn â lefel debygol y rheini ac unrhyw gostau eraill a fyddent yn codi o dan y fersiwn arfaethedig hon.

BUDDION

BUDDION BLYNYDDOL		
Un-tro	(Blynydd-oedd)	Disgrifiad a graddfa'r **prif fuddion mewn arian** yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt'
£ 0		
Budd Blynyddol ar Gyfartal (ac eithrio un-tro)		
£		**Cyfanswm Buddion** (Gwerth Presennol) £

Y **prif fuddion eraill heb eu cyfrifo mewn arian** yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt' Rhaid i unrhyw system ddosbarthu newydd alluogi plant/rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus am y gemau y maent yn eu prynu/chwarae. Croesewir tystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y mae'r system bresennol a'r gwahanol ddewisiadau'n cyflawni hyn (e.e., a fydd plant/rhieni'n gwybod beth y maent yn ei brynu a manwerthwyr yn gwybod beth y maent yn ei gwerthu?)

Y Prif Ragdybiaethau/Agweddau sensitif/Risgiau (i) bydd cyhoeddwyr sy'n defnyddio PEGI yn cyhoeddi ar fwy nag un llwyfan (mae tabl 7 yn dangos 2 a 5 llwyfan) (ii) bydd defnyddwyr PEGI yn dewis y llwybr safonol 50% o'r amser a'r llwybr cyflym am weddill yr amser (iii) cymhwysir y system newydd am gyfnod amhenodol: mae'r costau wedi'u seilio ar orwel 10 mlynedd (iv) mae cyfraddau cyfnewid yn sensitif ac yn agored i newidiadau.

Blwyddyn Pris Sylfaen	Cyfnod Amser Blynyddoedd	**Ystod Buddion Net** (Gwerth Net Presennol) £	**BUDDION NET** (Gwerth Net Presennol Amcangyfrif gorau)

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/dewis?			Y DU	
Ar ba ddyddiad y gweithredir y polisi?			Hydref 2010	
Pa sefydliad/au a fydd yn gorfodi'r polisi?			Safonau Masnach	
Beth yw cyfanswm y gost orfodi flynyddol i'r sefydliadau hyn?			£	
A yw'r gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydy	
A fydd gweithredu'n mynd y tu hwnt i isafswm gofynion yr UE?			Bydd	
Beth yw gwerth y mesur gwrthbwyso arfaethedig yn flynyddol?			£ Dim	
Beth yw gwerth y newidiadau o ran allyriadau tŷ gwydr?			£ Dim	
A fydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth?			Na fydd	
Cost flynyddol (£-£) i bob sefydliad (ac eithrio un-tro)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio?	Nac ydy	Nac ydy	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Effaith ar Linell Sylfaen y Beichiau Gweinyddol (Prisiau 2005) (Cynnydd - Gostyngiad)

Cynnydd £ Gostyngiad £ **Effaith Net** £

Allwedd: **Costau a buddion blynyddol: Prisiau Cyson** **Gwerth Presennol (Net)**

Sylfaen Tystiolaeth (ar gyfer taflenni crynhoi)

[Defnyddiwch y gofod hwn (gan argymell uchafswm o 30 o dudalennau) i ragosod y dystiolaeth, y dadansoddiad a'r naratif manwl yr ydych wedi creu'ch dewisiadau neu gynnig polisi ohonynt. Sicrhewch y trefnir yr wybodaeth yn y fath fodd fel y gellir egluro'r wybodaeth grynhoi ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon.]

Gweler dogfen ar wahân

Profion Effaith Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich dewisiadau polisi.

Sicrhewch y cynhwysir canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd yn y brif sylfaen tystiolaeth; gellir atodi canlyniadau eraill.

Math o brofi yr ymgymerir ag ef	***Canlyniadau yn y Sylfaen Tystiolaeth?***	***Canlyniadau wedi'u hatodi?***
Asesu'r Gystadleuaeth	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Cymorth Cyfreithiol	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Datblygu Cynaliadwy	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Asesu Carbon	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Profion Amgylcheddol Eraill	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Asesu'r Effaith ar Iechyd	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Cydraddoldeb Hiliol	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Cydraddoldeb Rhywiol	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Hawliau Dynol	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn
Prawfesur Polisïau Gwledig	Ydyn/Nac ydyn	Ydyn/Nac ydyn